All children and young people will get support to be:

- **ambitious, capable learners** who are ready to learn throughout their lives
- **enterprising, creative contributors** who are ready to play a full part in life and work
- **ethical, informed citizens** who are ready to take part in Wales and the world
- **healthy, confident individuals** who are ready to lead fulfilling lives as valued members of society.



Our teaching is organized around **six Areas of Learning and Experience (AoLEs)**:

Y 6 Maes Dysgu / The 6 Areas of Learning



Art; dance; drama; film and digital media; music




Physical health and development; mental health; emotional and social well-being



Geography; history; religion, values and ethics; business studies; social studies



Welsh; English; international languages



Five connected and interdependent proficiencies: conceptual understanding; communication using symbols; fluency; logical reasoning; strategic competence



Biology; chemistry; computer science; design and technology; physics

1. **Expressive Arts**
Encourages creativity and imagination through art, music, drama, dance, and film. Pupils develop skills to express themselves and appreciate cultural diversity.
2. **Health and Well-being**
Focuses on physical, emotional, and mental health. Children learn to develop resilience, build healthy relationships, and make positive life choices.
3. **Humanities**
Covers history, geography, religion, values, and ethics. Learners explore their identity, heritage, and global citizenship through a critical and reflective lens.
4. **Languages, Literacy, and Communication**
Develops proficiency in English and Welsh, alongside other modern languages. Communication skills, both spoken and written, are emphasized across all learning.
5. **Mathematics and Numeracy**
Fosters logical thinking, problem-solving, and confidence with numbers, ensuring learners can apply mathematical understanding in real-life contexts.
6. **Science and Technology**
Inspires curiosity through scientific inquiry and technological innovation. Pupils gain digital skills and explore concepts from biology, chemistry, physics, and computing.

Cross-Curricular Skills

In addition to subject knowledge, we promote three essential cross-curricular skills:

- **Literacy**
- **Numeracy**
- **Digital Competence**

Cross Curricular Skills



Welsh Identity and Language

We celebrate Wales' rich cultural heritage, ensuring every child develops confidence in using the Welsh language and an understanding of Welsh history and traditions.

At Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail, our curriculum empowers children to become ethical, informed citizens, ready to play an active role in their communities and beyond.



Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)

Mae rhaglen ACRh yr ysgol yn gysylltiedig â meysydd o'r Cwricwlwm a hefyd addysg gymdeithasol gyffredinol i ddisgyblion o'r Meithrin hyd at Flwyddyn 6 yn yr ysgol. Y prif bwyslais yw cydberthnasau a bydd yn adlewyrchu anghenion y disgyblion wrth iddynt ddatblygu dros eu cyfnod yn yr ysgol gynradd. Trafodir pynciau fel 'newidiadau i'n cyrff' a 'tyfu i fyny' fel rhan o'r cwricwlwm Gwyddoniaeth. Dewisir llyfrau a deunyddiau addysgol eraill sydd yn briodol ac addas i oedranau'r disgyblion i hybu'r gwersi gan y staff addysgu unigol. Fe fydd y rhieni yn cael y wybodaeth berthnasol am y gwersi ond ni fydd gennych hawl i dynnu eich plentyn allan o'r gwersi.

The school's Sex and Relationships Education programme, agreed by the Governing Body, is linked to aspects of the curriculum as well as general social education for pupils from the Nursery up to Year 6 at the school. The main focus is on inter-personal skills and will reflect the pupils' needs as they develop over their period in the primary school. Topics such as 'changes to our bodies' and 'growing up' are discussed as part of the Science curriculum. Books and other teaching materials that are relevant and appropriate to the pupils' ages are chosen by staff to enhance lessons. Parents will be informed of the lesson content but cannot withdraw their child from these lessons.

Addysg Grefyddol ac Addoli



Yn unol â gofynion y Cwricwlwm i Gymru, mae Addysg Grefyddol (AG) yn rhan annatod o'n cwricwlwm. Ein nod yw meithrin dealltwriaeth o grefyddau, credoau a safbwyntiau amrywiol, gan annog parch, goddefgarwch a chwilfrydedd. Mae disgyblion yn archwilio themâu moesol, ysbrydol a diwylliannol drwy drafodaeth agored a gweithgareddau ymarferol.

Mae sesiynau addoli ar y cyd mewn gwasanaethau Ysgol gyfan a gwasanaethau dosbarth yn cynnig cyfle i'r plant fyfyrir ar werthoedd allweddol megis caredigrwydd, cydweithrediad a pharch. Er ein bod yn dathlu traddodiadau a gwyliau crefyddol o wahanol ffyddau, rydym hefyd yn sicrhau bod gweithgareddau'n gynhwysol ac yn adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol ein cymuned ysgol.

Religious Education and Worship

In line with the requirements of the **Curriculum for Wales**, Religious Education (RE) is an integral part of our curriculum. Our aim is to foster an understanding of different religions, beliefs, and perspectives, encouraging respect, tolerance, and curiosity. Pupils explore moral, spiritual, and cultural themes through open discussion and practical activities.



Collective worship sessions, both whole school and class, provide an opportunity for children to reflect on key values such as kindness, cooperation, and respect. While we celebrate religious traditions and festivals from a variety of faiths, we also ensure that activities are inclusive and reflect the cultural diversity of our school community.

ADDYSG GORFFOROL A CHADW'N IACH

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd sy'n symbyliad ac yn ddiogel i ddisgyblion lle gallant weithio tuag at aeddfedrwydd cyffredinol wrth ddatblygu sgiliau corfforol a chadw'n iach.

Bwriadwn i Addysg Gorfforol fod yn fwyhad fel bydd y disgyblion yn ymddiddori ac yn barod i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol amrywiol. Drwy hynny gobeithiwn ddatblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o'r amgylchedd.

Mae'r ysgol yn hyfforddi'r plant mewn amryw o weithgareddau gan gynnwys dawns, gemau, nofio, athletau a gweithgareddau antur.



Mae'r timau'r ysgol yn cynnwys:

- Timau pêl-droed, sy'n cystadlu yng nghystadlaethau'r Urdd a rhai lleol
- Timau pêl-rwyd sy'n cystadlu yng nghystadlaethau Cymdeithas Pêl-rwyd yr Urdd
- Timau pêl-fasged sy'n cystadlu yng nghystadlaethau Valley Hoops
- Timau rygbi, sy'n cystadlu yng nghystadleuaeth yr Urdd a rhai lleol
- Timau rhedeg traws gwlad sy'n cystadlu ym mhencampwriaethau'r Urdd

Rhodddwn gyfle hefyd i'r plant fynychu gwahanol ddigwyddiadau Chwaraeon Rhondda Cynon Taf ac mewn gweithgareddau awyr agored ynghyd â chwaraeon yr Urdd.

PHYSICAL EDUCATION AND KEEPING HEALTHY

The school provides a stimulating and safe environment for pupils where they can develop physical skills and keep healthy. We ensure PE is enjoyable so that pupils are interested and ready to take part in various physical activities. In this way we develop an awareness and appreciation of the outdoors. The school trains the children in a variety of activities including gymnastics, dance, games, swimming, athletics and adventure activities.

The school has a number of teams that give the child the opportunity to compete individually and as a member of a team.



The teams include:

- Football teams, which compete in Urdd and local competitions
- Netball which compete in Urdd competitions
- Basketball team which competes in the Valley Hoops tournament
- Rugby teams, which compete in the Urdd and local competition.
- Cross country running teams competing in the Urdd and Sport Cardiff championships.

In addition, the children are given the opportunity to attend various events through RCT Sport, outdoor activities and Urdd activities

Cwyno am y Cwricwlwm Complaints About the Curriculum

O dan adran 409 Deddf Addysg 1996, gall rhieni gael gwybodaeth am y cwricwlwm neu wneud cwyn ffurfiol trwy wneud apwyntiad i drafod â Phennaeth yr Ysgol, anfon llythyr at Gadeirydd y Corff Llywodraethol a/neu Gyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Dysgu Gydol Oes. Mae Polisiâu a Dogfennau yn gysylltiedig â'r cwricwlwm ar gael yn yr Ysgol.

Under section 409 of the 1996 Education Act, parents are able to access information about the curriculum or make a formal complaint through making an appointment to discuss matters with the Head Teacher of the school, sending a letter to the Chair of the Governing Body and /or Director of Education and Lifelong Learning. Policies and Documents relating to the curriculum are available at the school.

DYSGU AC ADDYSGU

Fel ysgol, mae gennym y disgwyliadau uchaf ac rydym wedi ymrwymo'n llwyr i ymdrechu i wella ein harfer. Rydym yn ymfalchïo mewn safonau uchel ein haddysgu. Mae ein hathrawon yn gweithio'n barhaus i gynllunio ac i ddarparu cyfleoedd dysgu ysbrydoledig a gafaelgar.

Ein bwriad yw galluogi ein disgyblion i ddod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol a galluog
- Unigolion iach a hyderus
- Gyfranwyr mentrus a chreadigol
- Ddinasyddion moesegol a gwybodus



TEACHING AND LEARNING

As a school, we have the highest expectations and are fully committed to striving to improve our practice. We pride ourselves on high standards of teaching. Our teachers are continually working and planning to deliver inspiring and engaging learning opportunities.

Our focus is to enable our pupils to become:

- Ambitious and capable learners
- Healthy and confident individuals
- Enterprising and creative contributors
- Ethical and informed citizens



TREFNIADAETH DDOSBARTH

O fewn yr ystafell ddosbarth trefnir y gwaith gan yr athro/athrawes. Ym mhob dosbarth rhennir y plant yn ôl eu hoedran, ac maent yn gweithio mewn grwpiau cymysg eu gallu a grwpiau yn ôl gallu yn unol â gofynion y dasg. Mae hyn yn sicrhau'r ddarpariaeth orau ar gyfer disgyblion o bob gallu.

CLASSROOM ORGANISATION

Within the classroom the work is organised by the teacher. In each class the children are divided according to their age and work in mixed ability and ability groups depending on the nature of the task undertaken. This ensures the best provision for all pupils.

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Yn ein hysgol, rydym yn ymrwymo i ddarparu amgylchedd cefnogol a chynhwysol i bob plentyn, gan gynnwys y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Rydym yn credu bod pob plentyn yn unigryw ac yn haeddu'r cyfle i gyflawni eu llawn botensial. Mae ein staff profiadol yn gweithio'n agos gyda rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol allanol i greu cynlluniau dysgu personol sy'n diwallu anghenion unigol pob plentyn. Rydym yn cynnig ystod o gymorth wedi'i deilwra, yn y dosbarth ac y tu allan iddo, i helpu plant i ddatblygu eu sgiliau, eu hyder a'u hannibyniaeth. Ein hymrwymiad yw sicrhau bod pob plentyn yn teimlo'n werthfawr, yn cael cefnogaeth ac yn cael ei gynnwys ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

ADDITIONAL LEARNING NEEDS

At our school, we are dedicated to providing a supportive and inclusive environment for all children, including those with Additional Learning Needs (ALN). We believe every child is unique and deserves the opportunity to reach their full potential. Our experienced staff work closely with parents, carers, and external professionals to create personalised learning plans that cater to each child's individual needs. We offer a range of tailored support, both in and out of the classroom, to help children develop their skills, confidence, and independence. Our commitment is to ensure that every child feels valued, supported, and included in all aspects of school life.

DIOGELU

Yn ein hysgol, mae diogelwch a lles pob plentyn yn brif flaenoriaeth i ni. Mae gennym weithdrefnau diogelu clir a chadarn ar waith, yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*. Mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd i adnabod arwyddion o niwed, cam-drin neu esgeulustod ac yn gwybod sut i ymateb yn briodol. Rydym yn gweithio'n agos gyda rhieni, gofalwyr ac asiantaethau allanol i ddarparu'r gofal a'r cymorth gorau posibl i'n plant. Mae gan ein hysgol arweinydd diogelu dynodedig sy'n goruchwyllo pob mater diogelu, gan sicrhau bod unrhyw bryderon yn cael eu datrys yn brydlon ac yn effeithiol. Mae creu amgylchedd diogel a meithringar wrth wraidd popeth a wnawn, gan sicrhau bod pob plentyn yn gallu ffynnu, teimlo'n ddiogel ac yn cyrraedd eu potensial llawn.

SAFEGUARDING

At our school, the safety and well-being of every child are our highest priorities. We have clear and robust safeguarding procedures in place, in line with Welsh Government legislation and guidance, including *Keeping Learners Safe* and the *Social Services and Well-being (Wales) Act 2014*. All staff receive regular training to recognise signs of harm, abuse, or neglect and know how to respond appropriately. We work closely with parents, carers, and external agencies to provide the best possible care and support for our children. Our school has a designated safeguarding lead who oversees all safeguarding matters, ensuring that concerns are addressed promptly and effectively. Creating a secure and nurturing environment is at the heart of everything we do, ensuring every child can thrive, feel protected, and reach their full potential.

CYFLEOEDD CYFARTAL

Mae gennym Gynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n sicrhau cydraddoldeb addysg a chyfle i'r holl ddisgyblion, staff, rhieni a gofalwyr. Rydym yn ceisio datblygu diwylliant o gynhwysiad ac amrywiaeth sy'n galluogi pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol i deimlo'n falch o'i hunaniaeth, a chyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol. Caiff cyflawniad disgyblion ei fonitro, a byddwn yn defnyddio'r data hwn i gefnogi disgyblion, codi safonau a sicrhau addysgu cynhwysol. Byddwn yn mynd i'r afael â gwahaniaethu drwy hyrwyddo cydraddoldeb yn gadarnhaol, herio bwlio ac ystrydebau a chreu amgylchedd sy'n hyrwyddo parch at bawb.

EQUAL OPPORTUNITIES

We have a Strategic Equality Plan that ensures equality of education and opportunity for all pupils, staff, parents and carers receiving services from the school. We aim to develop a culture of inclusion and diversity in which all those connected to the school feel proud of their identity and able to participate fully in school life. The achievement of pupils will be monitored and we will use this data to support pupils, raise standards and ensure inclusive teaching. We will tackle discrimination by the positive promotion of equality, challenging bullying and stereotypes and creating an environment which champions respect for all.

TROSGLWYDDO



Rydym yn falch o'r perthnasau cryf sydd gennym gyda Ysgol Llanhari, ac ysgolion cynradd eraill y clwstwr sef Ysgol Dolau ac Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant. Mae hyn yn sicrhau trosglwyddiad esmwyth a chefnogol i'n disgyblion wrth iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu had-dysg. Trwy gydweithio'n agos, ymweliadau rheolaidd a gweithgareddau ar y cyd, rydym yn helpu ein plant i ddod yn gyfarwydd â'u hamgylchedd newydd, gan leihau unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae ein rhaglen drosglwyddo bwrpasol yn canolbwyntio ar baratoi academiaidd ac ar les emosiynol, gan sicrhau bod pob plentyn yn teimlo'n hyderus, yn cael cefnogaeth ac yn barod i lwyddo wrth iddynt gymryd eu cam cyffrous nesaf.

We are proud of the strong relationships we have built with our cluster primary schools – Ysgol Dolau and Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant and Ysgol Llanhari, ensuring a smooth and supportive transition for our pupils as they move on to the next stage of their education. Through close collaboration, regular visits, and shared activities, we help our children become familiar with their new environment, easing any anxieties they may have. Our dedicated transition programme focuses on both academic preparation and emotional well-being, ensuring every child feels confident, supported, and ready to thrive as they take their next exciting step.



TRAFNIDIAETH / TRANSPORT

Os bydd plentyn yn byw mwy na milltir a hanner oddi wrth yr ysgol, darperir trafnidiaeth iddo/iddi. Os bydd cwestiwn neu gŵyn ynghylch trafnidiaeth, dylai rhieni gysylltu ag Adran Drafnidiaeth yr Awdurdod ar 01443 494700. Disgwylir yr ymddygiad gorau posibl ar bob achlysur gan bob disgybl sy'n teithio ar fws i'r ysgol.

If a pupil lives more than a mile and a half away from school, transport is provided. If any query or complaint arises regarding transportation, parents should contact the Authority School Transport Division on 01443 494700. The best possible behaviour is expected from all pupils travelling to and from school on the bus at all times.

CINIO YSGOL / SCHOOL MEALS

Paratwir prydau bwyd poeth neu frechdanau gan staff y gegin, neu gall disgyblion ddod â chinio pecyn i'r ysgol os bydd y rhiant yn dymuno. Yn ystod yr awr ginio, mae tîm o gynorthwywyr amser cinio profiadol yn gofalu am y plant gan sicrhau ymddygiad da, diogelwch a gweinyddu cymorth cyntaf fel bo angen. Os oes alergedd bwyd gan unrhyw ddisgybl, cyfrifoldeb y rhiant ydyw i sicrhau fod yr ysgol yn ymwybodol ac [i ofyn am fwydlen arbennig i gael ei llunio](#). Rhaid i'r ysgol dderbyn llythyr meddygol, swyddogol er mwyn llunio bwydlen arbennig. Ceir mwy o fanylion am hyn o Swyddfa'r ysgol os oes angen.



Hot meals and sandwiches are prepared for the pupils by the kitchen staff, or pupils are able to bring a packed lunch to school if parents so wish. During the lunchbreak pupils are supervised by a team of trained and experienced supervisory assistants who ensure good conduct, pupil safety and administer first aid whenever necessary. Should any pupil have food allergies, it is the parent's responsibility to ensure that school is made aware of this and to [request a special menu is drawn up](#) in consultation with the Catering Department at the Local Authority. School must receive an official, medical letter confirming any allergies before a menu can be drawn up. More details can be sought from the School Office should this be necessary.

Llaeth / Milk



Bydd plant oedran Meithrin i Flwyddyn 2 yn cael 1/3 pint o laeth y dydd yn rhad ac am ddim. Os oes gan eich plentyn alergedd i laeth, gallwch anfon potel fach o ddŵr yn ei le, gall eich plentyn gael dŵr gan yr ysgol neu gall yr ysgol archebu llaeth arbennig os dymunwch.

Pupils of Nursery to Year 2 age receive 1/3 of a pint of milk each day free of charge. If your child has an allergy to milk, you may send a small bottle of water in its place, your child may be given water in school or school may order special milk should you request.

Salwch a Damweiniau / Sickness and Illness

Os na fydd eich plentyn yn teimlo'n hwylus, gwnawn ein gorau glas i gysylltu â chi. Os bydd yn dioddef yn wael yn sgil damwain, cysylltw'n â chi cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl rhoi Cymorth Cyntaf. Mewn argyfwng, bydd aelod o staff yn cysylltu â 999 cyn cysylltu â chi. Os bydd eich plentyn yn taro pen, byddwn yn cysylltu â chi ar unwaith i roi gwybod.

If your child feels unwell we shall do our best to contact you in order for you to collect your child from school. If your child suffers a serious injury we shall contact you as soon as possible after giving first aid. In case of emergency, a member of staff will dial 999 first and then contact you. If your child suffers any type of head injury we shall contact you immediately.

Rhoi Meddyginiaeth / Administering Medicines

Os oes angen moddion ar eich plentyn, dylech siarad ag athro neu athrawes eich plentyn i drafod hyn. Mae gan yr ysgol bolisi Gofal Iechyd sydd ar gael yn yr ysgol neu yn yr ardal 'Rhieni' [ar wefan yr ysgol](#). Mae'r polisi yma yn amlinellu'r camau a gweithdrefnau i'w dilyn os bydd angen i ddisgybl gymryd moddion.

If your child needs to take any medication, you should speak initially to your class teacher about this. School has a Healthcare Policy which is available to view at school or there is a copy in the 'Parents' section of the [school's website](#). This policy outlines the steps and procedures to take should any pupil need to take medication.

Iechyd a Diogelwch / Health and Safety

Cyfrifoldeb y Pennaeth, Staff yr Ysgol, y Llywodraethwyr a Gofalwr yr ysgol yw hyn. Bydd yr aelodau hyn yn cynnal archwiliad blynyddol ac asesiad risg o'r ysgol a bydd y Gofalwr yn tynnu sylw'r Pennaeth at unrhyw waith cynnal a chadw angenrheidiol o ddydd i dydd. Mae Polisi Iechyd a Diogelwch cynhwysfawr ar gyfer pob agwedd o weithgareddau'r ysgol ar gael i'w ddarllen yn swyddfa'r Ysgol. Mae gan yr ysgol bolisi E-ddiogelwch hefyd sydd yn sicrhau diogelwch y disgyblion wrth iddynt ddefnyddio TGCh ar draws yr ysgol. Nid yw'n bosibl i unrhywun gael mynediad i'r adeilad heb gael caniatad gan fod pob drws a chlwyd ar glo yn ystod y dydd.

This is the responsibility of the Head Teacher, School Staff, the Board of Governors and the school Caretaker. All three parties will carry out an annual inspection and risk assessment of the school and the Caretaker will report to the Head on any work which needs to be done from day to day. A comprehensive Health and Safety Policy for all aspects of the school's activities is made available for you to read at school. A robust E-Safety policy is also in place in school to ensure pupils' safety whilst using ICT throughout the school. It is not possible for anyone to gain access to the building during the school day without permission since all external doors are locked during the day.

Cwynion / Complaints

Os bydd cwyn neu broblem gennych, fe'ch anogir i gysylltu â'r aelod o staff perthnasol yn bersonol, trwy lythyr / ebost neu alwad ffôn i drafod y broblem. Os na fyddwch yn hapus gyda'r canlyniad, gofynnir i chi gysylltu â'r Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth er mwyn ymchwilio i'r gŵyn ymhellach a datrys y broblem. Os nad ydych yn fodlon gyda'r canlyniad gallwch ysgrifennu at Gadeirydd y Bwrdd Llywodraethu er mwyn i'r Bwrdd Llywodraethu gwrdd i ddod i benderfyniad. Gallwch ofyn am gael derbyn copi llawn o *Bolisi Cwynion yr ysgol yn y swyddfa neu ceir copi ar wefan yr ysgol*.

If you have a problem or a complaint, we advise you to contact the relevant member of staff in person, by letter / email or phone call in order that your complaint be dealt with. If you are unhappy with the outcome you may contact the Head Teacher or Deputy Head Teacher in order for them to investigate the complaint further and resolve the problem. If you are still unhappy with the outcome, you may write to the Chairperson of the Board of Governors so that the Board of Governors may meet to come to a decision. A full copy of the school's Complaints Policy is available on the school website or from the office by request.

Polisi Ffônau Symudol / Mobile Phone Policy

Ni chaniateir i ddisgyblion ddefnyddio ffônau symudol ar safle yr ysgol am nifer o resymau e.e. y temptasiwn i'w defnyddio fel 'arf' i 'fwlio' disgyblion neu rhag ofn i'r eiddo gwerthfawr hwn fynd ar goll neu gael ei dorri. Os oes angen ffonio adref, dylai disgyblion ddweud hynny wrth eu hathrawon a gofyn caniatad i fynd i swyddfa'r ysgol. Os ydy disgybl angen ffôn symudol ar gyfer gweithgaredd ar ôl ysgol, dylai roi y ffôn symudol i'w athro/athrawes i gadw yn ddiogel tan ddiwedd y dydd.

The school does not allow pupils to use mobile phones on the school site for a number of reasons e.g. the temptation to use it as a 'tool' to 'bully' pupils or in case a valuable item, such as the mobile phone, should be lost or broken. If it is necessary to ring home, pupils should inform their teacher and ask permission to go to the school office. If a pupil needs to take a mobile phone to an event after school, the phone should be handed to the Teacher for safe-keeping until the end of the school day.



Ymweld â'r Ysgol / Visiting the School

Croesawn ymweliadau gan rieni â'r Ysgol i drafod unrhyw bryderon ynghylch eu plentyn/plant neu i holi neu gwyno am fater arall. Byddai'n ddoeth i gysylltu â'r Ysgol dros y ffôn er mwyn gwneud apwyntiad. Am resymau diogelwch, gofynnir i bawb sy'n ymweld â'r ysgol fynd i Brif Fynedfa yr Ysgol.

We welcome visits to the school by parents wishing to discuss any concerns regarding their child / children or to inquire or complain about another matter. It is advisable to contact the School over the telephone in order to make an appointment. For security reasons, all visitors to the School are requested to report to the School's Main Reception.

Darpar Rieni / Prospective Parents

Caiff darpar rieni eu gwahodd i gysylltu â'r ysgol dros y ffôn i drefnu ymweliad yn ystod oriau ysgol ar adeg sy'n gyfleus i bawb. Cyn i'r plant ddechrau yn y Dosbarth Meithrin am y tro cyntaf, gwahoddir darpar rieni i gyfarfodydd yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn cyn i'r plentyn ddechrau, y cyntaf yn ystod Tymor yr Haf, fel arfer. *Prospective parents are invited to contact the school by phone to arrange a visit during school hours at a time that is convenient for everyone. Before the children start in the Nursery Class for the first time, prospective parents are invited to meetings at the school during the year before their child commences at the school, the first meeting during the Summer Term, usually.*

YMWELIADAU ADDYSGOL / EDUCATIONAL VISITS

Mae ymweliadau addysgol yn rhan hanfodol o'n cwricwlwm, gan gynnig cyfle i ddisgyblion ddysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth a phrofi'r byd o'u cwmpas. Rydym yn trefnu amrywiaeth eang o deithiau a gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio i gyfoethogi dysgu, datblygu sgiliau newydd ac ysbrydoli chwilfrydedd. Mae'r ymweliadau hyn yn cefnogi gwahanol feysydd o'r cwricwlwm ac yn helpu i feithrin hyder, gwaith tîm ac annibyniaeth. O deithiau lleol i amgueddfeydd a safleoedd hanesyddol i brofiadau dysgu awyr agored, mae pob ymweliad yn cael ei gynllunio'n ofalus i fod yn ddiogel (o dan arweiniad Arweinydd Ymweliadau Addysgol yr Ysgol a/neu'r athro/athrawes dosbarth), yn addysgiadol ac yn bleserus. Credwn fod y profiadau hyn yn creu atgofion parhaol ac yn helpu ein disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'u dysgu.

Educational visits are a vital part of our curriculum, offering pupils the opportunity to learn beyond the classroom and experience the world around them. We organise a wide range of trips and activities designed to enrich learning, develop new skills, and inspire curiosity. These visits support various areas of the curriculum and help to build confidence, teamwork, and independence. From local trips to museums and historical sites to outdoor learning experiences, each visit is carefully planned to be safe, (under the guidance of our Educational Visits Leader and class teachers), educational, and enjoyable. We believe these experiences create lasting memories and help our pupils develop a deeper understanding of their learning.

POLISI CODI A DILEU TALIADAU

Rydym yn ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i gyfleoedd addysgol, gan gynnwys teithiau, gweithgareddau a phrofiadau dysgu ychwanegol. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, rydym yn dilyn polisi tâl clir. Er bod llawer o weithgareddau yn cael eu darparu'n rhad ac am ddim fel rhan o'r cwricwlwm ysgol, efallai y bydd achosion lle gofynnir am gyfraniadau gwirfoddol i helpu i dalu costau profiadau ychwanegol, fel ymweliadau addysgol neu weithgareddau tu allan i'r cwricwlwm. Ni chaiff unrhyw blentyn ei eithrio rhag cymryd rhan os nad yw ei deulu yn gallu cyfrannu. Rydym hefyd yn darparu cymorth i deuluoedd sydd angen cymorth ariannol i sicrhau bod pob plentyn yn gallu cymryd rhan yn llawn mewn bywyd yr ysgol. Mae copïau llawn o'n polisi tâl ar gael ar gais o swyddfa'r ysgol neu ar ein gwefan.

CHARGING AND REMISSIONS POLICY

We are committed to ensuring that all pupils have equal access to educational opportunities, including trips, activities, and additional learning experiences. In line with Welsh Government guidance, we follow a clear charging policy. While many activities are provided free of charge as part of the school curriculum, there may be occasions where voluntary contributions are requested to help cover the costs of additional experiences, such as educational visits or extracurricular activities. No child will be excluded from participating if their family is unable to contribute. We also provide support for families who may need financial assistance to ensure that every child can take part fully in school life. A full copy of our charging policy is available on request from the school office or on our school website

CYSWLLT CARTEF / CYMUNED Â'R YSGOL

Yn ein hysgol, credwn fod partneriaeth gref rhwng y cartref, y gymuned a'r ysgol yn hanfodol i gefnogi lles a llwyddiant pob plentyn. Rydym yn cydnabod bod rhieni a gofalwyr yn chwarae rôl hanfodol yn addysg eu plentyn, ac rydym yn annog eu cyfranogiad yn ystod bywyd yr ysgol. Mae cyfathrebu rheolaidd, fel nosweithiau rhieni, cylchlythyrau a diweddariadau dosbarth, yn sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cadw'n hysbys ac yn gallu cefnogi dysgu eu plentyn gartref. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r gymuned ehangach i gyfoethogi profiadau ein disgyblion a darparu cyfleusterau dysgu gwerthfawr. Trwy feithrin perthynas gydweithredol, rydym yn ceisio creu amgylchedd positif a chefnogol lle gall pob plentyn ffynnu a chyflawni eu potensial llawn.

HOME / SCHOOL / COMMUNITY LINKS

We believe that a strong partnership between home, community, and school is essential to support the well-being and success of every child. We recognise that parents and carers play a crucial role in their child's education, and we actively encourage their involvement in school life. Regular communication, such as parents' evenings, newsletters, and class updates, ensures that families are kept informed and can support their child's learning at home. We also work closely with the wider community to enrich our pupils' experiences and provide them with valuable learning opportunities. By fostering a collaborative relationship, we aim to create a positive, supportive environment where every child can thrive and reach their full potential.

Addysg Gyrfaodd / Careers Education

Ceisio'r ysgol godi ymwybyddiaeth y disgyblion o'r byd gwaith er mwyn annog hunan-ddibyniaeth a meithrin blaengarwch, mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys cyfleoedd i chwarae rôl i'r plant e.e. cornel cartref, y caffi, siop anifeiliaid anwes, asiantaeth deithio, a.y.y.b. fel rhan o'r cwricwlwm i'r plant lleiaf. Yn ogystal, trefnir ymweliadau gan gwnstabl o Heddlu De Cymru i drafod pynciau fel 'Pobl sy'n ein Helpu' (e.e. meddygon, athrawon, swyddogion diffodd tân, cwnstabl yr heddlu). Trefnir ymweliadau â busnesau lleol i'r plant hŷn yn yr ysgol er mwyn helpu'r plant i ddechrau deal diwydiant a'r economi Cefnoga'r ysgol golegau hyfforddi ac ysgolion cyfun lleol, a byddwn yn aml yn derbyn disgyblion a myfyrwyr i'r ysgol ar brofiad gwaith neu ymarfer dysgu am gyfnodau sy'n amrywio o un wythnos i ddau dymor o hyd. Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol gysylltiadau â Coleg y Cymoedd, Coleg Penybont, Ysgol Llanhari, Prifysgolion Caerdydd ac Aberystwyth.

The school strives to raise pupils' awareness of the world of work in order to encourage self-reliance and nurture self-confidence, in a variety of ways including opportunities for role-play for pupils e.g. home corner, the café, the pet shop, travel agency etc. as part of the curriculum for the younger pupils. In addition, visits are arranged by a Constable with South Wales Police to discuss topics such as "People who help us" (e.g. doctors, teachers, fire officers, police constables).

Visits for the older pupils at the school and their teachers are arranged to local businesses in order to help them begin to understand Industry and the Economy.

The School supports training colleges and local secondary schools and will often welcome pupils and students to the school on work experience or teaching practice for periods ranging between one week and two terms in length. At present, the School has links with Coleg y Cymoedd, Bridgend College, Ysgol Llanhari and Cardiff & Aberystwyth Universities.

Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

